OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2025 Rhif 435 (Cy. 84)

2025 No. 435 (W. 84)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

Rheoliadau Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Diwygiadau Canlyniadol) 2025

The Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022 (Consequential Amendments) Regulations 2025

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ("Deddf 2022") yn diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac yn creu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ("y Comisiwn").

Mae paragraff 29 o Atodlen 4 i Ddeddf 2022 yn diwygio Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("Deddf 2013") mewn perthynas ag ad-drefnu ysgolion. Mae'r diwygiadau hynny yn cynnwys dileu pwerau Gweinidogion Cymru i wneud cynigion i ailstrwythuro addysg chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol, gan roi'r pwerau yn lle hynny i'r Comisiwn i ailstrwythuro addysg chweched dosbarth.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth er mwyn adlewyrchu'r diwygiadau hynny a wnaed i Ddeddf 2013 gan Ddeddf 2022.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r offeryn hwn.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

The Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022 ("the 2022 Act") abolishes the Higher Education Funding Council for Wales and creates the Commission for Tertiary Education and Research ("the Commission").

Paragraph 29 of Schedule 4 to the 2022 Act amends the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 ("the 2013 Act") in relation to school reorganisations. Those amendments include removing the Welsh Ministers' powers to make proposals to restructure local authority maintained school sixth form education, instead giving the Commission powers to restructure sixth form education.

These Regulations make consequential amendments to primary and secondary legislation to reflect those amendments made to the 2013 Act by the 2022 Act.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with this instrument.

2025 Rhif 435 (Cy. 84)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Diwygiadau Canlyniadol) 2025

Gwnaed	*2 Ebrill 2025*
Yn dod i rym	*5 Ebrill 2025*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 146(1)(a) a (2) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022(**1**).

Yn unol ag adran 143(3) a (4)(e)(ii) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(**2**).

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Diwygiadau Canlyniadol) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 5 Ebrill 2025.

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

2. Ym mharagraff 22 (Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013) o Atodlen 1 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol a diddymiadau) i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018(**3**), hepgorer is-baragraff (4).

(**1**) 2022 dsc 1.
(**2**) Gweler hefyd adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) am ddarpariaeth ynghylch y weithdrefn sy'n gymwys i'r offeryn hwn.
(**3**) 2018 dccc 2.

2025 No. 435 (W. 84)

EDUCATION, WALES

The Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022 (Consequential Amendments) Regulations 2025

Made	*2 April 2025*
Coming into force	*5 April 2025*

The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the power conferred on them by section 146(1)(a) and (2) of the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022(**1**).

In accordance with section 143(3) and (4)(e)(ii) of the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022, a draft of this instrument has been laid before, and approved by resolution of, Senedd Cymru(**2**).

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022 (Consequential Amendments) Regulations 2025.

(2) These Regulations come into force on 5 April 2025.

Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018

2. In paragraph 22 (School Standards and Organisation (Wales) Act 2013) of Schedule 1 (minor and consequential amendments and repeals) to the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018(**3**), omit subparagraph (4).

(**1**) 2022 asc 1.
(**2**) See also section 40 of the Legislation (Wales) Act 2019 (anaw 4) for provision about the procedure that applies to this instrument.
(**3**) 2018 anaw 2.

Rheoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2015

3. Yn rheoliad 4(1)(d) (eithriadau) o Reoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2015(**1**)—

(a) yn lle "fo Gweinidogion Cymru" rhodder "fo'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil";

(b) yn lle "adran 72(1)" rhodder "adran 63D(2)".

The Playing Fields (Community Involvement in Disposal Decisions) (Wales) Regulations 2015

3. In regulation 4(1)(d) (exceptions) of the Playing Fields (Community Involvement in Disposal Decisions) (Wales) Regulations 2015(**1**)—

(a) for "Welsh Ministers" substitute "Commission for Tertiary Education and Research";

(b) for "section 72(1)" substitute "section 63D(2)".

Vikki Howells

Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru
2 Ebrill 2025

Minister for Further and Higher Education under authority of the Cabinet Secretary for Education, one of the Welsh Ministers
2 April 2025

©ⓗHawlfraint y Goron 2025

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2025

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) O.S. 2015/1403 (Cy. 139).

(**1**) S.I. 2015/1403 (W. 139).

ISBN 978-0-348-39687-4

£5.78

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2025/435